

Ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhellion Adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Perthynas Cymru ag Ewrop a'r byd yn y dyfodol

Cyflwyniad

Ers degawdau, mae ein hymagwedd at y byd wedi cael ei diffinio gan ein perthynas â'r Undeb Ewropeaidd. Gyda phenderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd yn nodi newid sylfaenol yn ein hamgylchedd rhyngwladol, nawr yw'r amser i gael strategaeth ryngwladol newydd sydd â ffocws newydd a fydd yn amlinellu ein gweledigaeth ryngwladol i Gymru.

Er bod natur y berthynas hon yn parhau i fod yn ansicr – bydd Cymru yn parhau i fod yn wlad Ewropeaidd a bydd yn parhau i fod yn genedl eangfrydig.

Mae Cymru'n dechrau o sylfaen gref ac rydym am adeiladu ar y cysylltiadau rhyngwladol cryf sydd wedi'u datblygu dros y degawdau diwethaf a fydd yn helpu i gyfoethogi'r wlad yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol.

Yn ei hanfod, rhaid i'r strategaeth sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl Cymru, gan ymestyn manteision cadarnhaol gweithgarwch rhyngwladol drwy'r rhanbarthau a'n rhoi ar ben ffordd i gael mwy o bresenoldeb a dylanwad yn y byd.

Rwy'n croesawu adroddiad y Pwyllgor, a'r gwaith casglu tystiolaeth helaeth, sydd wedi darparu mewnbyn gwerthfawr yn ystod camau datblygu strategaeth ryngwladol newydd i Gymru.

Ymatebion manwl i argymhellion y Pwyllgor

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod y strategaeth ymgysylltiad rhyngwladol newydd i Gymru yn nodi maint uchelgais Llywodraeth Cymru o ran ymgysylltiad rhyngwladol ar ôl Brexit ac, mewn ymateb i'r adroddiad hwn, bod Llywodraeth Cymru yn nodi'r amserlenni disgwylidig ar gyfer cyhoeddi'r gwaith hwn.

Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell bod gan y strategaeth ryngwladol newydd gyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol cysylltiedig. Dylai'r rhain fod ar gael i'r cyhoedd fel y gellir mesur cynnydd yn erbyn amcanion y strategaeth newydd yn flynyddol.

Ymateb: Derbyn

Un o'm blaenoriaethau cyntaf ar ôl ymgymryd â'r swydd Weinidogol oedd diffinio strategaeth ryngwladol newydd ar gyfer Cymru. Fel y dywedais pan ymddangosais gerbron y Pwyllgor, roeddwn am sicrhau bod cyfnod o ymgysylltu er mwyn caniatáu i grwpiau a sefydliadau'r sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector gyfrannu eu barn, eu syniadau, eu profiad a'u harbenigedd yn ystod y camau cwmpasu. Ers

dechrau'r flwyddyn rwyf eisoes wedi ymgysylltu â nifer fawr o randdeiliaid ar draws y sectorau allweddol gan gynnwys Grŵp Gorchwyl a Gorffen annibynnol bach.

Wrth fynd gam ymhellach i ehangu'r ymgysylltu, cyhoeddais gyfres o gwestiynau ar-lein ac ar gyfryngau cymdeithasol i gasglu tystiolaeth gan y cyhoedd a helpu i siapio'r ddelwedd a'r neges y dylai Cymru fod yn ei chyflwyno i'r byd. Mae'r arolwg eisoes wedi denu nifer o ymatebion gyda sawl un yn dod o'r gymuned ryngwladol. Estynnwyd y dyddiad cau ar gyfer yr arolwg am bythefnos i 15 Ebrill er mwyn rhoi cyfle pellach i ymgysylltu, a sicrhau y byddai ymatebion yn adlewyrchu'r materion ehangach yn ymwneud ag amserlen Brexit hefyd. Mae'r arolwg i'w weld yn <https://www.smartsurvey.co.uk/s/KXVXI>

Bydd y strategaeth yn nodi maint ein huchelgais yn fanwl, ac yn nodi hefyd yr heriau a'r cyfleoedd a gyflwynir gan Brexit. Bydd yn amlinellu'r sut beth fydd llwyddiant dros y tymor byr a'r tymor hwy a bydd yn nodi ein huchelgais o ran dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru, lle mae modd i ni fesur allbynnau.

Fy nod yw cynhyrchu dogfen strategol a fydd yn sail i'n hagenda ryngwladol, yn hytrach na chynllun gweithredu manwl, er fy mod yn bwriadu nodi rhai uchelgeisiau lefel uchel y bydd yn bosibl eu mesur. Mae'n anodd cwblhau'r gwaith hwn, fodd bynnag, oherwydd y diffyg eglurder ynglŷn â'n perthynas â'r UE yn y dyfodol. Fy mwriad yw rhoi'r drafft cyntaf i'r Cabinet erbyn mis Mai gyda dogfen derfynol yn barod i'w chyhoeddi cyn yr haf.

Goblygiadau Ariannol - Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 2. *Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu mecanwaith ffurfiol - er enghraifft drwy greu is-bwyllgor Cabinet – i sicrhau cydgysylltiad effeithiol rhwng cylch gwaith y Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol a chylch gwaith Gweinidogion eraill a all fod ag agwedd ryngwladol ar eu gwaith.*

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Cydnabu Llywodraeth Cymru bwysigrwydd yr agenda ryngwladol drwy greu swydd weinidogol newydd ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol. Mae'r agenda ryngwladol yn rhedeg fel llinyn drwy bron pob un o bortffolios y Cabinet, felly rhan o'm rôl yw cydgysylltu ymdrechion rhyngwladol ar yr adeg dyngedfennol hon i Gymru ac i'r DU.

Adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae cyfarfodydd dwyochrog eisoes wedi'u cynnal gyda'r rhan fwyaf o Weinidogion y Cabinet. Pwrpas y cyfarfodydd hynny oedd archwilio sut gall y Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol gefnogi ymdrechion rhyngwladol ar draws y Cabinet ac annog perthynas waith agosach ar draws y portffolio cysylltiadau rhyngwladol. Mae'r trafodaethau hyn wedi bod yn allweddol wrth lywio'r strategaeth a byddant yn fuddiol o ran datblygu gwaith trawsportffolio cydgysylltiedig.

Gall is-bwyllgor cabinet fod yn fecanwaith priodol i osod cyfeiriad a sbarduno cynnydd yn yr agwedd ryngwladol ar holl weithgarwch Llywodraeth Cymru, fodd bynnag, o ystyried pwysigrwydd yr agenda a sut mae'n berthnasol ar draws sawl

maes portffolio, mae angen i opsiynau eraill gael eu hystyried, gan gynnwys y dewis o ganiatáu ar gyfer trafodaethau llawn yn y Cabinet ar ryngwladoli.

Goblygiadau Ariannol - Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn deillio o dderbyn yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 4. *Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, fanylion am y gwaith y mae'n ei wneud i gefnogi cymdeithas sifil drwy'r cyfnod pontio i ddyfodol ar ôl Brexit. Dylai'r ymateb hwn gynnwys asesiad o unrhyw gyllid ychwanegol sydd ei angen ar y sectorau â blaenoriaeth er mwyn cyflawni hyn.*

Ymateb: Derbyn

Rydym yn rhoi cymorth ariannol uniongyrchol i sectorau ledled Cymru i gynllunio a pharatoi ar gyfer Brexit. Mae hyn yn cynnwys Cronfa Bontio'r UE sydd werth £50 miliwn. Mae'r Gronfa yn rhan o'n cynlluniau Brexit ac fe'i cynlluniwyd i helpu sefydliadau'r sectorau preifat a chyhoeddus a'r trydydd sector i baratoi ar gyfer Brexit a'r newidiadau sylweddol sy'n gysylltiedig â gadael yr Undeb Ewropeaidd. Bydd y Gronfa yn helpu busnesau, gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau partner eraill yng Nghymru i gynllunio a pharatoi ar gyfer effeithiau Brexit a bydd yn helpu i ddiogelu ein heconomi i'r dyfodol. Caiff y Gronfa ei rheoli'n uniongyrchol drwy adrannau Llywodraeth Cymru i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau strategol ac yn pwysleisio gweithio mewn partneriaeth ar draws sectorau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau partner gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Hybu Cig Cymru a Chyddfederasiwn y GIG ymhlith eraill. Mae'r cynigion a ariannwyd eisoes yn cynnwys £150,000 i gefnogi CGGC i ystyried sut bydd Brexit yn effeithio ar wasanaethau cymunedol yng Nghymru, £1.2 miliwn i gefnogi dioddefwyr troseddau casineb, a £1.52 miliwn i gefnogi cydlyniant cymunedol. Mae £1.35 miliwn wedi bod ar gael i Awdurdodau Lleol hefyd, yn uniongyrchol a thrwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i gefnogi eu paratodau Brexit. Bydd hi'n bwysig wrth symud ymlaen sicrhau ein bod yn helpu'r trydydd sector cymaint â phosibl i baratoi ar gyfer y DU yn gadael yr UE.

Bydd proses Brexit anhrefnus, fel yr un sy'n esblygu erbyn hyn, yn effeithio ar gymdeithas sifil a sefydliadau'r trydydd sector mewn gwahanol ffyrdd, yn dibynnu ar y math o wasanaethau a ddarparant; y bobl a'r cymunedau y gwasanaethant a'r bobl y cyflogant.

Bydd y gwaith rydym yn ei ariannu yn ein helpu i asesu a deall sut bydd Brexit yn effeithio ar wasanaethau cymunedol yng Nghymru ac yn helpu'r trydydd sector i gynllunio ar gyfer pob canlyniad posibl. Bydd y gwaith hwn yn helpu grwpiau cymunedol i sicrhau bod cynlluniau wrth gefn a pharatodau'n gymesur ac yn rhoi sicrwydd i'r sector a'r cymunedau sy'n elwa ar y gwasanaethau hyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) ar y prosiect hwn sy'n cael ei ariannu drwy Gronfa Bontio'r UE. Rydym yn

gweithio'n agos gyda CGGC i sicrhau ein bod yn deall anghenion y trydydd sector yn well.

Rydym hefyd yn awyddus i fynd ati i asesu effaith Brexit ar sectorau â blaenoriaeth. Fel y cyfryw, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad gyda'r bwriad y byddwn yn gwneud asesiad o'r fath yn barhaus wrth i'r broses o adael yr UE ddatblygu.

Goblygiadau ariannol - Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn deillio o dderbyn yr argymhelliad hwn, gan fod gweithgarwch wedi cael ei ariannu drwy Gronfa Bontio'r UE.

Argymhelliad 5. *Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio gyda'r UE y posibilrwydd y bydd Cymru yn parhau i gymryd rhan yn rhaglenni Ewrop a geir mewn meysydd datganoledig. Dylid symud ymlaen â'r gwaith hwn ar frys, gan roi diweddariad i'r Cynulliad erbyn hydref 2019.*

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae'n hanfodol bwysig nad yw'r manteision sydd wedi dod i ran Cymru yn sgil bod yn aelod o'r UE yn cael eu colli ar ôl i'r DU adael. Rhaid i Lywodraeth y DU anrhydeddu'r ymrwymiad na fydd Cymru'n colli ceiniog o gyllid ar ôl Brexit. Rydym yn parhau i alw ar Lywodraeth y DU i gadarnhau y bydd yn darparu parhad mewn cyllid i Gymru - heb rag-amod a chyda'r un lefel o hyblygrwydd i ddefnyddio cyllid rydym yn ei arfer yn awr ac wedi gwneud felly yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf.

Gwyddom pa mor bwysig yw hi i Gymru allu cael mynediad parhaus i bartneriaethau a rhwydweithiau Ewropeaidd fel y rhai a sefydlwyd drwy raglenni cydweithredu tiriogaethol Ewrop sy'n cynnwys y rhaglen Iwerddon-Cymru, Horizon 2020, ERASMUS+, Ewrop Greadigol, a'u rhaglenni olynol ar ôl i ni adael yr UE.

O ganlyniad, ein dewis clir, fel y'i nodir yn y papur polisi *Diogelu Dyfodol Cymru*, yw bod Llywodraeth y DU yn sicrhau perthynas â'r UE yn y dyfodol sy'n cynnwys y DU gyfan mewn amrywiaeth o raglenni'r UE sy'n dod ag ystod eang o fanteision i ddinasyddion a busnesau ledled y DU ac Ewrop. Os na fydd hyn yn digwydd, rydym wrthi'n gweithio i sicrhau bod Cymru yn cadw ei lefel gyfredol o gyllid a hyblygrwydd i ddefnyddio'r arian hwnnw i gefnogi pobl a busnesau yng Nghymru.

Rydym yn parhau i ymchwilio i bob opsiwn ar gyfer parhau i gymryd rhan mewn ffora rhyngwladol, gan gynnwys rhaglenni'r UE sy'n gweithredu mewn meysydd datganoledig. Er enghraifft, mae ein swyddfa UE ym Mrwsel wedi bod yn gweithio'n agos gydag UKREP a thrwy ei rwydweithiau partner (megis CPMR a Menter Vanguard) i helpu i sicrhau bod y rheoliadau ar gyfer rhaglenni'r UE yn y dyfodol yn caniatáu i drydydd gwledydd gymryd rhan yn rhaglenni'r UE yn y dyfodol.

Fodd bynnag, byddai cymryd rhan yn rhaglenni'r UE, a'r cytundeb cysylltiedig â'r UE, yn cael ei arwyddo gan genedl-wladwriaeth fel arfer. Bydd angen i ni edrych i weld a fyddai'n bosibl i Gymru (neu gyfuniad o wledydd y DU) gymryd rhan yn rhaglenni allweddol yr UE fel y DU, hyd yn oed pe bai Lloegr yn gwrthod cymryd rhan. Er ein

bod yn gwneud pob ymdrech i ymgysylltu â'r UE, mae'r archwilio a'r trafod yn cymryd amser.

Goblygiadau Ariannol - Er y gellir talu costau cychwynnol archwilio opsiynau o gyllidebau presennol, bydd unrhyw gyfranogiad yn rhaglenni'r UE yn y dyfodol yn dibynnu ar gyfraniadau priodol fel rhan o gytundeb rhwng y DU a'r UE ar berthynas yn y dyfodol.

Byddai Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar Lywodraeth y DU naill ai i dalu'r costau hyn yn uniongyrchol, neu roi cyllid yn ôl i Lywodraeth Cymru y gellid ei ddefnyddio i ddarparu cyfraniadau priodol.

Argymhelliad 6. *Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r perthnasau dwyochrog sydd ganddi ar hyn o bryd er mwyn asesu pa rai o'r cysylltiadau hyn y gellir eu cryfhau a'u dyfnhau yn y dyfodol, yn unol â blaenoriaethau strategol Cymru.*

Ymateb: Derbyn

Mae'r Llywodraeth wrthi ar hyn o bryd yn gwerthuso ei pherthnasau dwyochrog fel rhan o'r gwaith o ddatblygu ein Strategaeth Ryngwladol newydd ac yn unol ag ymrwymiad maniffesto'r Prif Weinidog i nodi'r rhanbarthau a'r partneriaethau allweddol hynny yn yr UE y mae'n rhaid sicrhau a blaenoriaethu perthnasau llywodraethol gyda nhw yn y dyfodol".

Yn seiliedig ar yr asesiad hwn, ac yn unol â'n blaenoriaethau strategol, byddwn yn nodi'r perthnasau blaenoriaeth allweddol y byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion arnynt. Fodd bynnag, bydd angen hyblygrwydd ac ni ddylem ddiystyru cydweithredu rhwng y Llywodraeth a phartneriaid eraill oherwydd hwyrach na fydd y cyfleoedd masnachol mwyaf addawol, y perfformiwr gorau, na'r partner mwyaf defnyddiol a dylanwadol mewn unrhyw faes gweithgarwch penodol bob amser wedi'u lleoli yn ein rhanbarthau a'n cenhedloedd â blaenoriaeth.

Goblygiadau Ariannol - Dim. Telir am adnoddau gan gostau presennol rhedeg adrannau.

Argymhelliad 7. *Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn llunio cynllun gweithredu ar gyfer ymgysylltu â Chymry alltud. Dylai'r cynllun gweithredu hwn gynnwys manylion am ba wledydd fydd yn cael eu blaenoriaethu a sut bydd y Llywodraeth yn ceisio cyflawni hyn.*

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd datblygu ffordd fwy systematig o gysylltu â'r Cymry ar wasgar. Mae gwledydd yn mynd ati mewn ffyrdd gwahanol i ddatblygu eu rhwydwaith o gydwladwyr sydd ar wasgar. Mae rhai yn canolbwyntio ar y manteision economaidd posibl tra bod eraill yn edrych ar y darlun ehangach ac yn cynnwys diwylliant, twristiaeth a chwaraeon. Mae rhai yn ymgysylltu â'r boblogaeth ar wasgar

drwy sefydliad hyd braich, mae rhai dan ofal y llywodraeth, ac mae modelau eraill yn cynnwys dull gweithredu ar y cyd rhwng y llywodraeth a'r sector preifat. Rydym wrthi'n penderfynu pa fodel fydd yr un mwyaf addas i ni ei ddilyn yng Nghymru, ac yn trafod gyda sefydliadau sydd eisoes yn weithgar yn y maes hwn.

Nid yw'n anarferol i wledydd gael mwy nag un dull neu sefydliad ar gyfer ymgysylltu â'u poblogaeth ar wasgar. Mae hyn yn cydnabod nad yw dull 'un ateb yn addas i bawb' bob amser yn berthnasol ac nad oes yn rhaid i'r ymgysylltu fod dan ofal y llywodraeth ym mhob achos.

Mae ymgysylltu â Chymry ar wasgar yng Nghymru eisoes yn digwydd ar wahanol lefelau. Mae ein timau tramor yn ymgysylltu â mudiadau alltud i adeiladu rhwydweithiau ac mae nifer o grwpiau yn weithredol yn y maes hwn, gan gynnwys GlobalWelsh, Undeb Cymru a'r Byd, a Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru i enwi dim ond rhai.

Bydd y strategaeth newydd yn seiliedig ar weithgarwch i weithio gyda grwpiau ar wasgar i sicrhau gwell cydgysylltu, ond mae angen inni ystyried pa ymgysylltu sy'n digwydd eisoes, a nodi ble mae'r bylchau.

Goblygiadau ariannol – Dim effaith uniongyrchol ar gyllidebau ond byddai angen i unrhyw benderfyniad i ffurfioli a chynyddu ymgysylltiad â grwpiau ar wasgar gynnwys asesiad o'r gofynion o ran adnoddau.

Argymhelliad 8. *Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu dadansoddiad llinell sylfaen annibynnol, er enghraifft gan Swyddfa Archwilio Cymru, o weithrediad swyddfeydd tramor y Llywodraeth. Yn dilyn hynny, dylid defnyddio'r llinellau sylfaen hyn i fesur y cynnydd a wnaed gan y swyddfeydd, yn unol â'r strategaeth ryngwladol sydd i ddod*

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth bellach i'r argymhelliad wrth i'r strategaeth gael ei datblygu. Yn ddelfrydol, byddai strategaeth â dangosyddion perfformiad allweddol yn datblygu'r llinell sylfaen. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi penodi swyddog i oruchwylio'r gwaith o reoli perfformiad y swyddfeydd tramor.

'Ni ellir asesu 'perfformiad llinell sylfaen' na 'chynnydd' dilynol gan y swyddfeydd tramor ar wahân.

Mae angen inni ystyried a fyddai'n briodol archwilio swyddfeydd bach iawn, gan mai archwiliad o un unigolyn fyddai hwn mewn sawl achos.

Goblygiadau ariannol – Dim ar hyn o bryd. Pe bai archwiliad annibynnol yn cael ei ystyried yn fuddiol, ac yn briodol, gallai fod costau yn gysylltiedig â'i weithredu.

Argymhelliad 9. *Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb i'r adroddiad hwn:*

- *y camau y mae'n eu cymryd i gryfhau ei phresenoldeb a'i dylanwad yn Llundain;*
- *asesiad o ddigonolrwydd yr adnoddau sydd ar waith i wella ymwybyddiaeth a mynediad at adrannau Whitehall i wneud y mwyaf o'i dylanwad*

Ymateb: Derbyn

Mae Swyddfa Llywodraeth Cymru yn Llundain yn swyddfa amlswyddogaethol sy'n cefnogi gweithgarwch sy'n gysylltiedig â Chymru yn Llundain ar draws pob un o feysydd Llywodraeth Cymru.

Mae'r swyddfa yn gweithredu fel canolbwynt ar gyfer hyrwyddo Cymru ar lwyfan byd-eang, gan wella proffil, enw da a dylanwad Cymru, a helpu i hyrwyddo Cymru a chefnogi twf busnesau.

Mae staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio yn y swyddfa yn ymwneud â marchnad Llundain mewn sawl maes allweddol:-

- Masnach a Mewnfuddsoddiad – codi ymwybyddiaeth yn y gymuned fusnes yn Llundain (ac yn fyd-eang) o Gymru fel partner masnachu a lleoliad ar gyfer buddsoddiad uniongyrchol o dramor.
- Cysylltiadau Rhyngwladol - Cryfhau cysylltiadau Cymru â Llysgenadaethau Rhyngwladol a Siambrau Masnach wedi'u lleoli yn Llundain.
- Rhyngweithio â Rhanddeiliaid – Gwellu proffil Cymru ymhlith cyrff diwydiant yn y ddinas fel CityUK a TechNation.
- Llywodraeth y DU/Whitehall - Mynd ati i hyrwyddo galluoedd a buddiannau Cymru yn adrannau Llywodraeth y DU gan gynnwys FCO, BEIS, DEFRA, DIT.
- Ymgysylltu â Chymry alltud – Gweithio mewn partneriaeth â Chymry alltud yn y ddinas i godi proffil Cymru a chreu budd economaidd.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymryd camau i gryfhau ei phresenoldeb yn Llundain er mwyn gwella ein dylanwad gydag adrannau Llywodraeth y DU a rhwydweithiau ehangach yn Llundain.

Yn dilyn argymhellion Adolygiad yr Athro Reid o ymchwil ac arloesedd a ariennir gan y Llywodraeth yng Nghymru, bydd 2 aelod staff ymroddedig ychwanegol yn cael eu lleoli yn Swyddfa Llundain yn benodol i hyrwyddo buddiannau ymchwil ac arloesedd Cymru yn adrannau Whitehall megis BEIS a chyrff ymchwil, UKRI a NESTA. Bydd yr adnodd ychwanegol yn ceisio cynyddu ymgysylltiad ymchwil ac arloesedd Cymru ym mhrifddinas y DU; yn mynd ar drywydd cyfleoedd ariannu i ddenu talent a buddsoddiad ac arddangos y cwmnïau arloesol a'r sectorau o safon ryngwladol sydd gennym yng Nghymru; ac yn nodi cyfleoedd i Gymru gymryd rhan mewn cyfnewidfeydd yn y DU ac yn rhyngwladol a chydweithio â chyrff ymchwil ac arloesi.

Bydd asesiad o'r angen i gryfhau Swyddfa Llundain ymhellach yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y strategaeth ymgysylltu rhyngwladol newydd ac ystyriaeth barhaus o'r rôl y swyddfa o ran cynyddu dylanwad Llywodraeth Cymru yn Whitehall. Mae'n debygol hefyd y bydd y gwaith o gyflawni'r strategaeth ryngwladol newydd yn cynnwys deall yr angen i gynyddu ein dylanwad a rhoi negeseuon clir i adrannau Llywodraeth y DU yn Llundain.

Goblygiadau ariannol – Mae costau swyddfa Llundain yn cael eu talu o ddyraniadau cyllidebol presennol gan gynnwys yr adnoddau staff ychwanegol mewn ymateb i argymhellion adroddiad yr Athro Reid. Byddai unrhyw benderfyniad i ddyrannu adnoddau ychwanegol i Swyddfa Llundain yn cael ei wneud gan roi ystyriaeth briodol i'r goblygiadau ariannol a sefyllfa a blaenoriaethau cyllid Llywodraeth Cymru yn gyffredinol.

Argymhelliad 10. *Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn annog Llywodraeth y DU i gyhoeddi'r adolygiad o fecanweithiau rhynglywodraethol a gomisiynwyd gan Gydbwyllgor y Gweinidogion (Cyfarfod Llawn) ym mis Mawrth 2018, cyn gynted ag y bo modd.*

Ymateb: Derbyn

Mae'r adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol a gomisiynwyd gan Gydbwyllgor y Gweinidogion (Cyfarfod Llawn) ym mis Mawrth 2018 yn cael ei gynnal ar y cyd gan Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig. Mae gwaith yn parhau ar yr amrywiol ffrydiau gwaith sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad, a chyhoeddir allbynnau'r adolygiad ar ôl iddynt gael eu cwblhau a'u cymeradwyo gan y pedair gweinyddiaeth.

Goblygiadau ariannol – Mae'r gwaith ar y cysylltiadau rhynglywodraethol yn cael ei gyflawni o fewn costau presennol rhedeg adrannau.

Argymhelliad 11. *Rydym yn argymhell bod y strategaeth ymgysylltiad rhyngwladol newydd yn nodi meysydd o bŵer tawel lle gall Cymru arddangos arweinyddiaeth ryngwladol.*

Ymateb: Derbyn

Mae pŵer tawel wedi chwarae rhan bwysig, a bydd yn parhau i wneud hynny, drwy gysylltiadau'r Llywodraeth, diwylliant, y celfyddydau a chwaraeon. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ymgymryd â gweithgarwch codi proffil ac mae ein rhwydweithiau tramor yn cydweithio'n agos â'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad ar ddigwyddiadau codi proffil.

Mae rhywfaint o'r gweithgarwch sy'n gysylltiedig â phŵer tawel y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru ond gall y llywodraeth chwarae rôl allweddol mewn cydlynu gweithgarwch.

Mae diplomyddiaeth ddiwylliannol, a elwir hefyd yn bŵer tawel, yn ymestyn i gyfleu ein credoau, ein moeseg a'n gwerthoedd. Mae gan Gymru stori dda i'w hadrodd. Mae ein polisi arloesol a blaengar fel ein system newydd i gynyddu nifer y rhoddwyr organau a'n deddfwriaeth arloesol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dweud rhywbeth am y 'Gymru a garem'. Rydym hefyd yn credu bod ein harbenigedd fel cenedl ddwyieithog yn golygu bod gennym rywbeth i'w gynnig i'r byd, yn enwedig ym mlwyddyn ieithoedd cynhenid UNESCO.

Rydym yn cydnabod bod pŵer tawel yn faes sydd angen mwy o sylw.

Bydd y strategaeth yn neilltuo adran sy'n canolbwyntio ar sut y gallwn ddatblygu sianelau cyfathrebu cliriach ar draws ein marchnadoedd a gweithio gydag eraill i godi proffil Cymru drwy ddiplomyddiaeth a dylanwad diwylliannol.

Chwaraeon; iaith; treftadaeth ddiwylliannol; ein hagwedd at amrywiaeth, cydraddoldeb a derbyn pobl fel ag y maen nhw; rhagoriaeth ac arbenigedd; cynaliadwyedd ac ailgylchu, mae ein pryder am faterion byd-eang i gyd yn cyfrannu at siapio'r hunaniaeth genedlaethol, a'r hunaniaeth gadarnhaol hon y mae angen i ni ei chyflwyno i'r byd.

Goblygiadau Ariannol - Dim. Telir am adnoddau gan gostau presennol rhedeg adrannau.